



Cyngor **Abertawe**  
**Swansea Council**

## Swyddfa'r Cabinet

Neuadd y Ddinas,  
Abertawe SA1 3SN  
[www.abertawe.gov.uk](http://www.abertawe.gov.uk)

Ms Sophie Howe  
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol  
Cymru

### **DRWY E-BOST:**

*Gofynnwch am:* Y Cyngorydd Rob Stewart  
*Llinell Uniongyrchol:* 01792 63 6141  
*E-bost:* [clr.rob.stewart@swansea.gov.uk](mailto:clr.rob.stewart@swansea.gov.uk)  
*Ein Cyf:* RS/KH  
*Eich Cyf:*  
*Dyddiad:* 2 Ionawr 2018

Annwyl Ms Howe

### **Cyngor i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe (BGC)**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Hydref 2017 yn rhoi cyngor ac adborth i ni ynglŷn â'n hamcanion lles drafft. Rydych chi wedi rhoi llawer o bethau i ni eu hystyried yn eich llythyr adborth. Rydym wedi myfyrio fel partneriaeth ar y materion a godwyd gennych a byddwn yn sicrhau y bydd y myfyrdodau hynny'n rhan o'n hystyriaethau wrth ddatblygu'r amcanion a'r camau terfynol yn ein Cynllun Lles. Yn amlwg, rydym wedi gwneud cynnydd ychwanegol yn datblygu ein hamcanion ac yn cydnabod y lluniwyd eich adborth ar adeg benodol.

Mae eich llythyr yn nodi y byddech yn croesawu adborth ar eich cyngor ac unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella, ac mae BGC Abertawe'n awyddus i ddarparu adborth o'r fath i chi.

Roedd y bartneriaeth wedi disgwyl cyngor a gwybodaeth yn seiliedig ar ein hamcanion lles drafft, ein hanghenion ac aeddfedrwydd ein partneriaeth yma yn Abertawe. Roeddem yn siomedig felly i weld nad yw eich llythyr yn adlewyrchu profiad Abertawe, yn hytrach mae'n debycach i ddogfen sydd wedi cael ei thorri a'i gludo ac, yn wir, cyfeirir atom fel Pen-y-bont ar Ogwr ar un adeg!

Er enghraifft, cawsom ein synnu a'n siomi i ddarllen eich sylwadau am hawliau plant. Mae Abertawe'n hysbys iawn fel arweinydd yn y maes hwn yng Nghymru ac yn rhyngwladol hefyd. Mae Cyngor Abertawe wedi gosod 'dyletswydd ystyriaeth briodol' arno'i hun drwy wreiddio CCUHP yn ei fframwaith polisi a ni yw'r cyntaf yn y byd i wneud hynny; PABM yw'r unig fwrdd iechyd sydd wedi ymgorffori hawliau plant yn ei broses gynllunio gyda Siarter Plant a Fforwm Ieuenctid ac, yn fwy diweddar, mae Heddlu De Cymru hefyd wedi mabwysiadu'r CCUHP. Ar y cyd, mae gan yr ardal hon ymrwymiad rhagorol i gefnogi a gwella hawliau plant a'u cofnodi. Byddem wedi gwerthfawrogi dadansoddiad a oedd yn cydnabod y datblygiadau hyn ac a oedd yn darparu gwybodaeth a chynghor i fynd â ni i'r lefel nesaf i ddarparu ymagweddau byd-enwog at ystyried hawliau plant.

Ar ben hyn, rydych yn crybwyll y dylem fynd 'y tu hwnt i ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu traddodiadol a chynnwys pobl â phrofiad go iawn o fywyd'. Eto, mae partneriaid Abertawe'n gwneud hyn yn unigol ac ar y cyd yn rheolaidd. Mae ein holl feysydd blaenoriaeth presennol wedi cynnwys elfen o gyd-gynhyrchu ac, er ein bod yn cydnabod



bod mwy i'w wneud a gallwn ddysgu mwy, roeddem yn teimlo mai ychydig iawn o gydnabyddiaeth a gafwyd o'n gwaith presennol. Er enghraifft, rydych yn crybwyll potensial rhagnodi cymdeithasol ac mae werth nodi bod hyn yn rhan o'n gwaith presennol i roi'r Dechrau Gorau mewn Bywyd i Blant a'r cynllun gweithredu presennol.

Rydym hefyd yn credu eich bod wedi camddeall sut rydym yn gweithio yma'n Abertawe. Rydych yn gwneud sawl sylw am ein strwythurau, ond mae'r rhain yn anghyson ac yn annefnyddiol. Mae'n ymddangos bod diffyg eglurder o ran y ffaith bod rôl yr arweinwyr gweithredol yn un dros dro i lunio'r Cynllun Lles, ac mae hefyd ddiffyg dealltwriaeth o'r ffaith bod cyfres o is-grwpiau'n cyflwyno amcanion gweithredol ehangach drwy'r Grŵp Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc, Grŵp Llywio Abertawe Mwy Diogel, y Bwrdd Dinas Iach, y Fforwm Tlodi a'r Bartneriaeth Adfywio. Rydych yn crybwyll eich bod wedi clywed gwybodaeth anghyson am y strwythurau – byddem wedi bod yn fwy na bodlon i roi mwy o wybodaeth i chi petaech wedi gofyn sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sy'n digwydd yn lleol. Rydym yn cydnabod bod cydbwysedd rhwng strwythur atebolrwydd â ffocws a'r egwyddor cynnwys ac, er ein bod yn meddwl bod gennym drefniadau da yn Abertawe, byddwn yn eu hadolygu'n naturiol unwaith y cwblheir y Cynllun Lles, fel yr oeddem wedi bwriadu gwneud. Mae eich sylwadau am y bartneriaeth yn cael ei 'harwain gan y cyngor' yn ormodol ac, ar yr un pryd, gyfeirio drwy'r llythyr at y gwelliannau y mae angen eu gwneud i 'wasanaethau cyhoeddus' yn dangos diffyg cydnabyddiaeth o ehangder aelodaeth ein partneriaeth.

Rwy'n cydnabod bod peth amser wedi mynd heibio ers i'r swyddogion gwrdd â chi gyntaf a bod camau gweithredu pellach wedi cael eu cyflwyno ers hynny. Er enghraifft, cynhaliodd Grŵp Llywio'r Dechrau Gorau mewn Bywyd gynhadledd ar y 1,000 Diwrnod Cyntaf fel cam cyntaf i ymgymryd ag ymarfer llawn i fapio'r gwaith a wneir yn Abertawe a chynllun gweithredu llawn. Rydym hefyd wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) i annog partneriaid i fod yn fwy ymwybodol o ACE.

Mae gennym hefyd hanes da o weithio mewn partneriaeth yn Abertawe ar waith Dinas Iach, gan gael ein dynodi'n Ddinas Iach gan Sefydliad Iechyd y Byd. Profwyd bod ein gwaith ar Fywyd Nos Iach gyda'r Man Cymorth yn enghraifft gref sydd wedi cael ei chydabod ledled Cymru fel arfer da mewn gwaith partneriaeth rhwng yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd, y Cyngor a phartneriaid o'r sector gwirfoddol.

Rwy'n ymwybodol bod y swyddogion wedi gweld y cyfeiriadau i wybodaeth ychwanegol – gennych chi ac o ffynonellau ehangach – yn ddefnyddiol iawn a byddent wedi bod hyd yn oed yn fwy defnyddiol petaent ar ffurf rhestr ddarllen y gallem gyfeirio ati'n rheolaidd.

Edrychaf ymlaen at ymdrin â'r materion hyn gyda chi a'ch swyddogion yn y misoedd a'r blynnyddoedd i ddod. Rwy'n hapus i gwrdd â chi i egluro cynnydd partneriaeth Abertawe ymhellach os byddai hynny'n fuddiol.

Yn gywir



**Y CYNGHORYDD ROB STEWART**  
**CADEIRYDD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS ABERTAWE**  
**Ar ran BGC Abertawe**